



## **Adolygiad o Farcio - marciau a aseswyd gan y Ganolfan (asesiadau dan reolaeth TGAU, gwaith cwrs TAG, asesiadau nad ydynt yn arholiadau TAG a TGAU)**

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn marcio gwaith ymgeisiwyd yn deg, yn gyson ac yn unol â manyleb y corff dyfarnu a'r dogfennau cysylltiedig â'r pwnc penodol.

Bydd gwaith ymgeiswyr yn cael eu marcio gan staff sydd â gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol, ac sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y gweithgaredd hwn. Mae Coleg Dewi Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith ymgeiswyr yn cael ei dilysu yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Lle bo nifer o athrawon pwnc yn rhan o'r broses marcio, bydd safoni mewnlol a chymedroli er mwyn sicrhau cysondeb marcio.

1. Bydd Coleg Catholig Dewi Sant yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn eu marciau a aseswyd gan y canolfan er mwyn iddynt ofyn am adolygiad o'r marciau cyn y cyflwynir y marciau i'r corff dyfarnu.
2. Bydd Coleg Dewi Sant yn hysbysu ymgeiswyd o'r ffaith bod modd iddynt dderbyn copïau o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un ai i wneud cais am adolygiad.
3. Bydd Coleg Dewi Sant yn sicrhau bod y deunyddiau ar gael yn brydlon, ar ôl derbyn cais am gopi.
4. Bydd Coleg Dewi Sant yn sicrhau bod gan ymgeiswyr digon o amser er mwyn adolygu'r copïau a gwneud penderfyniad.
5. **Rhaid** cyflwyno ceisiadau am adolygiad o'r marciau yn ysgrifenedig.
6. Bydd Coleg Dewi Sant yn sicrhau digon o amser ar gyfer adolygiad, er mwyn sicrhau unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marciau ac i hysbysu'r ymgeisydd o'r canlyniad, cyn dyddiad cau'r corff dyfarnu.
7. Bydd Coleg Dewi Sant yn sicrhau bod adolygiad marcio yn cael eu cynnal gan aseswr sydd yn gallu dangos cymhwysedd priodol, heb gael unrhyw ran mewn asesiad blaenorol yr ymgeisydd ac sydd heb unrhyw fuddiant personal yn yr adolygiad.
8. Bydd Coleg Dewi Sant yn rhoi cyfarwyddiadau i'r adolygwr er mwyn sicrhau bod y marc yn gyson gyda'r safon a osodwyd gan y ganolfan.
9. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad.
10. Danfonwyd canlyniad yr adolygiad i bennaeth y ganolfan ar ffurf cwyn. Bydd cofnod ysgrifenedig ar gael i'r bwrdd arholi ar gais. Os byddai'r adolygiad yn dod ag unrhyw angysondeb i'r amlwg, bydd y bwrdd arholi yn cael gwybod yn syth.

Ar ôl i waith yr ymgeisydd cael ei asesu, bydd y gwaith yn cael ei gymedroli'n allanol er mwyn sicrhau cysondeb marcio rhwng canolfannau. Gall y broses o gymedroli arwain at newidiadau mewn marciau. Mae'r broses yma tu hwnt i reolaeth Coleg Dewi Sant ac nid yw'r broses yma yn dod o dan y polisi hwn.